

wedi ystyried holl oblygiadau ei bresenoldeb ar y pwyllgor arbennig hwnnw.

Oherwydd bod cymdogion yn derbyn geirwired y rhieni byddai gwirbod pwy ymhlith gweddill yr aelodau oedd yn ochri gyda hwynt yn ddi-ddorol, a phwy hefyd oedd yn eu herbyn. Am un yn unig ohonynt y gellid teimlo'n ddiogel ei fod ymhlith y garfan gyntaf ac ef oedd y trymaf ohonynt, neb llai na John Jones, penteulu Plas Maesyrcrugiau, trefeddiannwr pwysicaf yr ardal. Daw yn glir ymhellach ymlaen sut y gellir dod i'r casgliad hwnnw.

Penderfynodd y pwyllgor ddewis saith o ddynion (heb nodi cymwysterau neilltuol o arbennig ar gyfer gorchwyl o'r fath) i wyllo'r ferch ddydd a nos am bythefnos o 22 Mawrth hyd 5 Ebrill. Galwyd cyfarfod cyhoeddus yn nhafarn yr Eagle yn Llanfihangel ar 7 Ebrill i glywed adroddiadau'r gwylwyr ac y mae'n glir nad oedd gan un ohonynt dystiolaeth fod rhywun yn helpu Sarah Jacob i gael bwyd. Dylid nodi, serch hynny, bod un o'r gwylwyr wedi cael ei wahardd ar ôl dwy noson oherwydd iddo gael ei ddal yn cysgu, a therfynwyd gwasanaeth un arall ar ôl un tro o wyllo oherwydd mai cymydog oedd ef. Mae'n glir nad oedd y pythefnos o wyllo hwnnw heb ei feia.

Gan un yn unig o'r gwylwyr y cafwyd mwy nag ychydig o sylwadau a hwnnw oedd Thomas Davies, Llwynfedw, 72 mlwydd oed. Oherwydd ei oed fe gyfyngwyd ei wyllo ef i oriau dydd ond yr oedd yn bendant na welodd unrhyw dystiolaeth fod Sarah yn cael ei bwydo. Ond, 'roedd gan Davies ei amheuan. 'Roedd gwely'r rhieni, meddai, yn agos iawn at wely'r ferch gyda'i phen tua'u traed. Bob yn eilddydd newidiwyd y gwely ac yr oedd y cynfasau yn wlyb drwyddynt. Hysbyswyd ef gan y rhieni, cyn iddo gael cyfle i ofyn, mai ar ôl i'r gwylwyr ddod y dechreuodd hi basio dŵr. Sylwodd hefyd na châi Sarah anhawster i grafu ei phen er y dywedid na fedrai droi dalennau llyfr! 'Roedd Davies o'r dechrau wedi bod yn ddrwgdybus ond gan na welodd brawf â'i lygaid ei hun bod Sarah yn cael ei bwydo teimlai o dan orfodaeth i gladdu ei amheuan. Hyd yn oed ar ôl dweud hynny ni fedrai atal ei hun rhag nodi'r posibilrwydd fod rhywun yn ei helpu i gael bwyd. Os oedd rhywun yn gwybod unrhyw gyfrinach, meddai, un o'i chwiriwyd oedd honno. Bob tro yr oedd hi allan o'r ystafell galwodd Sarah amdani.

Peth trawiadol arall yn natganiad Thomas Davies oedd yr argyhoeddiad fod y meddyg teulu ei hun yn credu yng ngallu'r ferch i fyw heb fwyd, ac yn y cyswilt hwn dylid ystyried yr hyn a ddywedodd J. Richards,

Caerfyrddin, yn ei lythyr yn rhifyn 2 Ebrill 1869 o *Seren Cymru*, wrth ddisgrifio ei ymweliad — ymweliad ddiwyddodd cyn i'r gwyllo ddechrau ar 22 Mawrth — ac yn dweud fel yr oedd y meddyg yn 'cymryd rhan flaenllaw i ddangos doniau Sarah i wŷr dieithr'. Nid Sarah Jacob oedd yr unig un i fwynhau'r sylw, hwyrach!

Mae pwynt arall o bwys ynglŷn â'r pythefnos hwnnw o wyllo. Dau fu'n cymryd eu tro yn gyson, ac a gyfaddefasant ar y diwedd na welsant unrhyw arwydd bod y ferch wedi cael bwyd, oedd Daniel Harries Davies a James Harries Davies. Pa fath o argraff gafodd eu tystiolaeth ar Dr Davies? Ef oedd wedi'u dewis. 'Roeddent yn neid iddo hefyd!

Ar ôl y sylw agoriadol syrthiodd y pwnc i ddinodedd braidd, yn enwedig yn y wasg Seisnig, ond 'roedd y cyhoeddusrwydd wedi ennyn chwilfrydedd a dechreuodd pobol o bell ac agos dyrru i'r ffermdy. Gwisgwyd Sarah Jacob yn atyniadol, fel priodferch meddai rhai, i dderbyn ymwelwyr a derbyniodd arian ac anrhegion ganddynt. Ym mis Mai 1869 'roedd o 35 i 40 yn galw'n gyson bob dydd, ond nid yw'n rhyfedd bod ymwelwyr sinigaidd yn teimlo mai sioe i ddenu'r hygoelus oedd yn Llethr-neuadd.

Mae'n debyg bod rhai o'r rheini yn dweud yn blaen wrth y rhieni mai twyll oedd y cwbl ac y mae'n glir fod hynny wedi gwylltio Evan Jacob oblegid yn rhifyn 4 Mehefin 1869 o *Seren Cymru* cyhoeddodd Myrddin Ddu fod y tad yn barod i dalu canpunt i bwy bynnag allai brofi twyll. 'Roedd canpunt yr oes honno yn swm sylweddol iawn ond ni wyddys am neb a wnaeth gais i'w ennill.

Deuai amrywiol feddygon i'w gweld hefyd, ambell un yn ceisio'i harchwilio'n fanwl, ond pob un yn sylwi bod ganddi gas cadw da ac yn methu derbyn sut fedrai fod cystal heb dderbyn ymborth. Yna, yn ystod mis Awst 1869, fe archwiliwyd Sarah gan y Dr Robert Fowler, meddyg o Lundain a chanddo gryn brofiad, ac ar 7 Medi fe gyhoeddwyd llythyr ganddo yn y *Times* yn adrodd yr hanes yn fanwl. Cafodd Fowler wybod, meddai, gan y fam nad oedd y ferch wedi cael ymborth o unrhyw fath am bron ddwy flynedd ac 'roedd yn rhy wan i godi o'r gwely, dioddefai o ryw fath o barlys ar ochr chwith ei chorff ac ni fedrai lyncu.

Cafodd Fowler ei hysgyfaint a'i chalon yn hollol iach. Yr oedd sŵn yn ei chylla, yr hyn a brofai iddo fod yno ddefnydd hylifol ac awyr. Yr oedd ei churiadau yn hollol naturiol, rhwng 89 a 90 y funud. Yn ystod ei archwiliad cafodd y ferch yr hyn a alwai ei

mam yn llewyg, ond ni adawodd y lliw coch o'i bochau. Yr oedd ei llygaid ynghau, ond wrth godi'r caedau symudai'r gannwyll yn ôl ac ymlaen. Nid oedd yno arwyddion llewyg yn ei farn ef oblegid mewn llewyg byddai'r wyneb yn llwyd-wyn, y llygaid yn sefydlog, ac arwyddion eraill gwahanol i'r rhai a arddangosid. Wrth archwilio ei dwylo gwelwyd pob arwydd o iechyd perffaith ac nid oedd unrhyw wendid corfforol yn ei rhwystro rhag codi a cherdded.

Credai Fowler bod Sarah Jacob yn medru ymprydio, a hynny am gyfnodau hir, ond 'roedd cyflwr ei chorff yn brawf digonol nad oedd hynny'n digwydd. Mewn geiriau eraill 'roedd y meddyg o'r farn bod y ferch yn cael ymborth. Golygai hynny bod twyll yn digwydd ac yr oedd yn hawdd drwgdybio'r rhieni oherwydd y ffordd y trefnid Sarah ganddynt fel canolbwynt i fath o arddangosfa a'r modd y derbynid anrhegion ac arian gan gannoedd o ymwelwyr.

Ond ar ôl ystyried yr holl bosibiliadau fe gynigiwyd esboniad arall gan Fowler. Yn ôl ei brofiad helaeth, meddai, 'roedd dyfeisgarwch merched ieuainc yn dioddef o fathau arbennig o hysteria yn ddbendraw, ac yr oedd tuedd gref i dwyllo yn ddwfn yng nghymeriad Sarah. Hi, felly, oedd yn camarwain ei rhieni ac yr oedd yn well gan y ddeuddyn hygoelus gredu bod rhywbeth gwyrthiol yn digwydd nag ystyried bod y ferch yn eu twyllo. Dim ond gan y 'Doctor Mawr', yn ôl Evan Jacob, oedd y gallu i wella ei ferch a phan awgrymodd Fowler bod Sarah yn cael ei symud i ysbyty er mwyn ei bwydo holodd ym mha fodd y gallent wneud hynny heb wneud twll ynddi!

Ar ôl dod i'r penderfyniad hwnnw ni fedrai weld yn glir sut y câi afael ar fwyd ond 'roedd eisoes wedi ateb y cwestiwn hwnnw wrth farnu nad oedd dim i'w rhwystro rhag gadael y gwely ar ei liwt ei hun. Ond sylwodd bod digon o adnoddau, o wneuthuriad y gwely ei hun i'r mynych ddodrefn oedd o'i gwmpas, yn cynnig cyfle i guddio bwydydd.

Trwy ymddangosiad llythyr Fowler fe dorrodd yr argae yn y wasg Seisnig, ac un a deimlodd y peth i'r byw oedd John Griffiths, 'Gohebydd' Llundain i *Baner ac Amserau Cymru*. 'Roedd Myrddin Ddu wedi bod yn bwydo'r *Faner* efo newyddion am Sarah Jacob ac yn niwedd Ebrill 1869 galwodd Gohebydd yn Llethr-neuadd lle gwelodd y fam a'r ferch a siaradodd gyda llawer o gymdogion. Gadawodd gyda'r teimlad, meddai, fod y stori yn wir.

Ond gorfodwyd Gohebydd i adolygu ei ymateb yn ddirifol

pan welodd beth oedd gan Fowler i'w ddweud. Casaodd y sylw minniog a'r beirniadau llym ar hygoledd cenedl y Cymry yn y wasg Lundeinig, a phenderfynodd wneud rhywbeth yn ei gylch. Os oes twyll yn digwydd 'roedd angen mynd at ei wraidd a'r unig ffordd o wneud hynny oedd trwy drefnu gwyladwriaeth drylwyr gan bobl y gellid dibynnu ar eu proffesiynoldeb. Sicrhaodd addewid am gydweithrediaid gan feddygon o Ysbyty Guy yn Llundain ac wrth deithio trwy Pencader galwodd yn Llethr-neuadd a'r ficerdy i amlinellu ei gynllun. Addawyd pob cymorth iddo.

Galwyd cyfarfod cyhoeddus yn nhafarn yr Eagle, Llanfihangel-ar-Arth, gyda 30-40 yn bresennol. Etholwyd y ficer i'r gadair fel o'r blaen ond wyddom ni ddim am restr llawn o'r rhai oedd yno; yn eu plith roedd rhieni Sarah. Cyhoeddwyd y doi pedair o nyrsus o Ysbyty Guy yn Llundain i wyllo'r ferch ddydd a nos am bythefnos. Enwebwyd panel o bump o feddygon i oruchwylio'r trefniadau ac i fod wrth law pe bai'r gwylwyr yn dymuno ymgynghori â hwynt. Ymhlith y pump roedd y Dr D. H. Davies, sy'n brawf unwaith cto nad oedd ef yn gweld dim o'i le yn ei gysylltiad â'r achos. Arwyddodd Evan Jacob gytundeb yn cyflwyno ei ferch i ofal y nyrsus a'r meddygon am bythefnos heb ymyrraeth ganddo ef.

Lledaenodd y newyddion fel tân gwyllt am y prawf oedd wedi cael ei drefnu a chymaint oedd y chwilfrydedd fel yr ymngsoglodd tyrfaoedd yng ngorsafodd rheilffordd Caerfyrddin a Phencader i weld y nyrsus yn cyrraedd ar 9 Rhagfyr 1869, yn union fel pe baent yn disgwyl y frenhines.

Yn Llethr-neuadd archwiliwyd Sarah Jacob gan y pwyllgor meddygol a dwy o'r nyrsus a gwelwyd merch hynod o iach ei golwg gyda digon o gnawd ar ei hesgym. Nid oedd ar ei chorff unrhyw hanes o'r briwiadu gwely ddisgwylid weld ar un fu yn y gwely cyhyd heb symud. Yn ôl y Dr D. H. Davies dyna'r tro cyntaf iddo weld y claf heb ddilledyn arni. Ac yntau yn sicr yn cael gwybod beth oedd ei hanes o dro i dro trueni o'r mwyaf yw na fentrodd y dyn i'w harchwilio cyn hynny. Archwiliwyd y ddodrefn yn yr ystafell a'r gwely ac ni welwyd unrhyw arwyddion o fwyd yn unman, ond gwelwyd ôl iwrin ar y gwely cyn newid y cynfasau. 'Roedd gan hwnnw ei arwyddocad ei hun, wrth gwrs.

Hysbyswyd y gwylwyr mai eu gwaith oedd gweld a roddid bwyd i Sarah. Nid oeddent i gynnig dim, ond gallent roi bwyd